# Cymdogaeth 20 Munud – Sesiwn 1 – Sefydlu

## Canllaw athro

| **Cymdogaeth 20 Munud – pwrpas y gweithgaredd** |
|---|
| Croeso i'n pecyn adnoddau ysgol ar gymdogaethau 20 munud! Mae'r gyfres hon o weithdai'n cynnwys 4 sesiwn sy'n cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru. Nodau:<br>• Datblygu dealltwriaeth o gymdogaethau 20 munud a phwysigrwydd lle<br>• Archwilio a gwerthuso'r ardal leol<br>• Ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau lleol ynghylch yr ardal leol<br><br><u>Sesiwn 1 – Sefydlu:</u><br>• Cyflwyno'r cysyniad o gymdogaethau 20 munud – beth ydyn nhw a beth yw eu manteision.<br>• Paratoi ar gyfer y sesiwn nesaf – cynllunio llwybr a rhannu'n grwpiau ffocws |

| **Gweithgaredd** | **Amser dechrau** | **Parhad** |
|---|---|---|
| • Cyflwyniad i'r gweithdy a'r prif gysyniadau | | 5 munud |
| • Map meddwl – nodweddion | | 10-15 munud |
| • Trafodaeth ddosbarth ar y manteision | | 10 munud |
| • Mapio – llwybr ar gyfer y sesiwn nesaf | | 10-15 munud |

| **Offer** |
|---|
| • PowerPoint<br>• Darnau mawr o bapur a phinnau ysgrifennu ar gyfer y gweithgaredd map meddwl<br>• Bwrdd gwyn i wneud nodiadau ar y gweithgaredd trafodaeth<br>• Map radiws o'ch ysgol (gweler isod)<br>• Adnodd mapio ar-lein (fel Google Maps) i'w ddefnyddio fel dosbarth |

| **Gweithgaredd** | **Amser** |
|---|---|
| **Cyflwyniad**<br>• Rhowch gyflwyniad byr i'r gweithdai a'r prif gysyniadau gan ddefnyddio'r PowerPoint i'ch arwain | **5 munud** |
| **Map meddwl – nodweddion**<br>• Mewn grwpiau, ewch ati i greu map meddwl o'r nodweddion rydych chi'n credu y dylid eu cynnwys mewn cymdogaeth 20 munud. | **10-15 munud** |

| | |
|---|---|
| • Defnyddiwch y cwestiynau ar sleid 10 a'r categorïau ar sleid 11 i ysgogi trafodaeth.<br>• Mae eiconau ar sleid 11 hefyd i roi mwy o awgrymiadau os bydd angen. | |
| **Trafodaeth ddosbarth – manteision**<br>• Hwyluswch drafodaeth am fanteision cymdogaethau 20 munud, gan ysgrifennu pwyntiau ar fwrdd gwyn.<br>• Gellid rhannu'r manteision i rai cymdeithasol, amgylcheddol, ac economaidd.<br>• Gadewch amser hefyd i ystyried a oes unrhyw anfanteision. | **10 munud** |
| **Mapio – llwybr ar gyfer y sesiwn nesaf**<br>• Fel dosbarth, penderfynwch ar lwybr i'w gymryd yn y sesiwn nesaf.<br>• Gan ddefnyddio eich map radiws fel canllaw (gwelir isod), defnyddiwch Google Maps ar y bwrdd clyfar i lunio llwybr i'w ddilyn.<br>• Dechreuwch yn eich ysgol, yna cliciwch ar 'cyfarwyddiadau'. Teipiwch neu cliciwch ar y map ar gyfer y lleoedd yr hoffech ymweld â nhw, a chliciwch 'add destination' i ychwanegu cyrchfan a mynd i rywle arall. Gallwch addasu'r llwybr drwy ei lusgo ar y map. | **10-15 munud** |

## Creu map

Gallwch greu map radiws gan ddefnyddio CalcMap https://www.calcmaps.com/map-radius/

- Llywio i'r ysgol
- Cliciwch ar 'draw a circle'
- Gan ddechrau ar yr ysgol, llusgwch gylch allan gyda radiws o 0.8km/0.5milltir
- Cliciwch 'download map'

Fel arall, cysylltwch â activetravelschoolplan@sustrans.org.uk gan nodi cyfeiriad eich ysgol, a bydd map yn cael ei wneud i chi.

Enghraifft o Ysgol Gynradd Sili yn Sili.



*Ffigur 1: Map radiws wedi'i greu gan ddefnyddio CalcMap*